**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

**National Assembly for Wales**
Health and Social Care Committee

Ann Jones AC
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

3 Gorffennaf 2015

Annwyl Ann,

**Y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)**

Yn dilyn fy llythyr ar 16 Mehefin 2015, amgaeaf gopi o adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar egwyddorion cyffredinol y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) ("y Bil"). Mae'r adroddiad wedi'i osod heddiw, ddydd Gwener 3 Gorffennaf 2015, a bydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Pwyllgor.

Ar ôl clywed tystiolaeth gan nifer o dystion, mae'r Pwyllgor wedi dod i'r casgliad y dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru gytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil. Fodd bynnag, credwn fod angen cryfhau darpariaethau'r Bil mewn nifer o feysydd, gan gynnwys cofrestru'r gweithlu, cyfranogiad ac ymgysylltiad y cyhoedd yn y drefn arolygu, goruchwylio swyddogaethau comisiynu awdurdodau lleol, a threfniadau ar gyfer gweithio ar y cyd a chydweithio rhwng cyrff ac awdurdodau rheoleiddio perthnasol.

Mae'n bosibl y bydd dau o'n hargymhellion o ddiddordeb arbennig i'ch Pwyllgor. Mae argymhelliad 4 yn galw ar y Gweinidog i gyflwyno gwelliannau i'w gwneud yn ofynnol i bawb sy'n arfer swyddogaethau o dan y Bil dalu sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (yn ogystal â Chonfensiwn



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Seneddlechyd@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/Seneddlechyd
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddHealth@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl ac Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn). Mae argymhelliad 39 yn galw ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ystyried a fyddai'n briodol ymestyn y gofyniad i gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i ofalwyr maeth.

Mae dadl ar egwyddorion cyffredinol y Bil wedi’i threfnu ar gyfer dydd Mawrth 14 Gorffennaf 2015.

Yn gywir

**David Rees AC**

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol